# LEWIS, DAVID WILLIAM (1845 - 1920), cerddor

**Enw:** David William Lewis
**Dyddiad geni:** 1845
**Dyddiad marw:** 1920
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cerddor
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd ym Mrynaman 15 Ebrill 1845. Cafodd ychydig addysg yn yr ysgol ddydd, ac wedi hynny gan ryw Prosser, Brynaman. Dechreuodd weithio yn y lofa yn 9 oed.

Daeth i wybod am gerddoriaeth trwy astudio llyfrau Mills ac Eleazar Roberts. Enillodd holl dystysgrifau Coleg y Tonic Solffa, a chafodd y radd O F T.S.C.; efe oedd y cyntaf yng Nghymru i ennill y radd honno. Cynhaliodd ddosbarthiadau cerddorol mewn amryw ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin. Cyfansoddodd lawer o donau ac anthemau a darnau i blant. Cyhoeddodd *Odlau Mawl*, ac ysgrifennodd gyfres o wersi cerddorol i'r *Tywysydd*. Cyhoeddodd hefyd *Llawlyfr y Llais*. Gwasnaethodd fel beirniad ac arweinydd cymanfaoedd canu. Golygodd, gydag eraiil, *Y Caniedydd*, *Y Salmydd Cenedlaethol*, a'r *Caniedydd Cynulleidfaol*.

Bu farw 20 Ionawr 1920, a chladdwyd ef ym mynwent capel Annibynwyr Gibea. Yr oedd yn ustus heddwch (1919) yn Sir Gaerfyrddin.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


Mr D. W. Lewis, F.T.S.C., Brynamman, *Y Cerddor*, 1899, tt.74-75

*Y Cerddor*, 1908


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732896


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu